Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD, DOGFENNU

# Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Esbonio nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r sefydliadau dan sylw.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 29 Medi 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Rheoliadau 2011)

Sefydliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu ar sail:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Cyfeirir at y categorïau hyn fel y 'nodweddion gwarchodedig'.

Mae Deddf 2010 hefyd yn cyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd â thri nod cyffredinol. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod y rhai sy'n ddarostyngedig iddi yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn achos Llywodraeth Cymru mae hyn yn cynnwys llunio polisïau a darparu gwasanaethau, ac mewn perthynas â chyflogeion.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Rheoliadau 2011)

Yng Nghymru, mae rhai cyrff cyhoeddus hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol sydd i'w gweld yn **Rheoliadau 2011** a elwir yn ddyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru. Nod y dyletswyddau hyn yw galluogi'r sefydliadau i weithredu'r Ddyletswydd yn well drwy fynnu, er enghraifft, cyhoeddi amcanion cydraddoldeb ynghyd ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gofynion ymgysylltu, adroddiadau cynnydd, casgliadau data a mwy.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithredu fel rheoleiddiwr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chyflawni'r camau sy'n cefnogi'r Ddyletswydd. Mae gwybodaeth am ei rôl reoleiddio, cyfrifoldebau a phwerau unioni i'w gweld yn **Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar wahân i'r **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.** Mae gwybodaeth am y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r sefydliadau sy'n ddarostyngedig iddi (sy'n wahanol i'r rhestr o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) i'w gweld ar **Dyletswydd Gymdeithasol-economaidd: trosolwg**.

# Sefydliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Gweinidogion Cymru yn darparu diweddariadau cynnydd rheolaidd ar waith sy'n cael ei wneud i gydymffurfio â'r Ddyletswydd gan Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n derbyn cyllid gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Lywodraeth Cymru i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r rhain yn cynnwys:

## Llywodraeth Cymru

- Prif Weinidog Cymru
- Gweinidogion Cymru
- Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru

## Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- **Cyngor Celfyddydau Cymru**
- **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**
- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
- **Amgueddfa Cymru**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Cymwysterau Cymru**
- **Chwaraeon Cymru**

## Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

### Byrddau Iechyd Lleol

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
- **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ymddiriedolaethau’r GIG

- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**
- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

## Llais – Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Mae **Llais** yn gorff annibynnol sy’n:

- ymwneud ag aelodau o’r cyhoedd
- cynrychioli llais pobl i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol
- darparu eiriolaeth a chymorth cyfrinachol am ddim ar gyfer cwynion

## Llywodraeth Leol

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol.

- **Blaenau Gwent**
- **Pen-y-bont ar Ogwr**
- **Caerdydd**
- **Sir Gaerfyrddin**
- **Caerffili**
- **Ceredigion**
- **Conwy**
- **Sir Ddinbych**
- **Sir y Fflint**
- **Gwynedd**
- **Ynys Môn**
- **Merthyr**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- **Sir Fynwy**
- **Castell-nedd Port Talbot**
- **Casnewydd**
- **Sir Benfro**
- **Powys**
- **Rhondda Cynon Taf**
- **Abertawe**
- **Torfaen**
- **Cyngor Bro Morgannwg**
- **Wrecsam**

Mae 4 partneriaeth ranbarthol neu Gyd-bwyllgor Corfforedig lle mae sefydliadau Llywodraeth Leol wedi dewis cydweithio er budd pawb.

- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin

Er eu bod wedi'u cynnwys o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, nid oes ganddynt wefan eu hunain. Gellir cael gwybodaeth am eu gweithgareddau drwy gysylltu â'r Awdurdodau Lleol perthnasol

- **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - CLILC**

## Awdurdodau tân ac achub

- **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
- **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## Sefydliadau Addysgol

- **Cyngor y Gweithlu Addysg** (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gynt)
- **Estyn** Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**
- **Cymwysterau Cymru**

## Awdurdodau cyhoeddus eraill

- **Archwilio Cymru**
- **Archwilydd Cyffredinol Cymru**
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
- **Gofal Cymdeithasol Cymru**
- **Awdurdod Cyllid Cymru**

## Comisiynwyr Cymru

- **Comisiynydd Plant Cymru**
- **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
- **Comisiynydd y Gymraeg**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Prifysgolion Cymru

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Glyndwr Wrecsam

## Sefydliadau Addysg Bellach

- Coleg Penybont
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Gar
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Colegau NPTC
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Y Coleg Merthyr Tudful

## Sefydliadau'r DU sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr

### Sefydliadau trawsffiniol (ar hyd y ffin rhwng Cymru a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Lloegr): Awdurdodau trawsffiniol Cymru

- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
- Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG
- Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae sawl sefydliad ar draws y DU sy'n gweithredu yng Nghymru, nad ydynt yn rhan o Adroddiad Gweinidogion Cymru gan eu bod yn gweithredu ar lefel y DU.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein datganiad hygyrchedd i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am hawlfraint.